

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/MD/0601/15

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Mehefin 2015

Ysgrifennaf mewn cysylltiad â'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

Fe gofiwch fy mod wedi dweud yn y Cyfarfod Llawn ar 3 Mehefin fy mod yn cytuno ag argymhelliad y Pwyllgor y dylai'r Aelod Cyfrifol wneud dadansoddiad pellach o'r cynnydd posibl yn y gwariant ar staff nyrsio asiantaeth/cronfa yn y tymor byr pe byddai'r Bil yn cael ei weithredu, ac rwyf wedi cynnig ei gynorthwyo gyda'r dasg honno yn barod. Heb y dadansoddiad, fodd bynnag, ni chredais ein bod wedi cyrraedd yr adeg i gynnig Cynnig Penderfyniad Ariannol.

Nid wyf eto wedi gweld dim costau diwygiedig gan yr Aelod Cyfrifol felly ni fyddaf yn symud ymlaen i gyflwyno Cynnig Penderfyniad Ariannol ar 7 Gorffennaf, fy mwriad gwreiddiol. Mae'n bwysig bod penderfyniad o'r fath yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o holl oblygiadau ariannol y Bil.

Byddaf, fodd bynnag, yn cyflwyno gwelliannau'r Llywodraeth cyn y toriad, er mwyn dangos fy ymrwymiad i gefnogi nodau'r Bil. Byddaf hefyd yn gofyn i fy swyddogion barhau i graffu ar effeithiau ariannol y Bil fel y'i Cyflwynir dros yr haf.

Gobeithio y bydd modd imi gynnig Cynnig Penderfyniad Ariannol yn ystod tymor yr hydref. Ysgrifennaf atoch nawr gan y gwn y caiff y penderfyniad hwn effaith ar amserlen y Pwyllgor ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2, ond gobeithio y cytunwch fod yn rhaid i ystyriaeth o'r fath fod ar sail Penderfyniad Ariannol sy'n ennyn hyder yn gyffredinol.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services